



# Deufis

Eglwysy Bedyddwyr Gogledd Teifi

Ionawr-Chwefror 2023

## Trefn yr Oedfaon

### Sul 1 Ionawr

Aberduar	10.00 y bore	Gweinidog—Cymun
Caersalem	2.00 y pawns	Gweinidog—Cymun
Noddfa	3.30 y pawns	Gweinidog—Cymun

### Sul 8 Ionawr

Aberduar	10.00 y bore	Ffred Ffransis
Bethel	10.15 y bore	Gweinidog—Cymun
Seion	2.00 y pawns	Gweinidog—Cymun
Noddfa	6.00 hwyr	Oedfa garolau yng ngolau cannwyll

### Sul 15 Ionawr

Aberduar	10.00 y bore	Rhys Bebb Jones
Noddfa	10.00 y bore	Delyth Morgans Phillips
Brynhafod	2.00 y pawns	Oedfa deulu

### Sul 22 Ionawr

Aberduar	10.00 y bore	Melda Grantham
Bethel	10.15 y bore	Gweinidog
Seion a Brynhafod (ym Mrynhafod)	2.00 y pawns	Gweinidog

### Sul 29 Ionawr

Oedfa unedig yn Noddfa 10.30 y bore Carwyn Graves  
Swyddog Cyfathrebu, Undeb Bedyddwyr Cymru

### **Sul 5 Chwefror**

Aberduar	10.00 y bore	Gweinidog-Cymun
Bryn Hafod	10.30 y bore	Ysgol Sul
Caersalem	2.00 y pñawn	Gweinidog-Cymun
Noddfa	3.30 y pñawn	Gweinidog-Cymun

### **Sul 12 Chwefror**

Bethel	10.15 y bore	Gweinidog-Cymun
Aberduar a Seion (yn Seion)	2.00 y pñawn	Gweinidog-Cymun

### **Sul 19 Chwefror**

Aberduar	10.00 y bore	Gweinidog
Noddfa	9.30 y bore	Gweinidog
Brynhafod	2.00 y pñawn	Gweinidog

### **Sul 26 Chwefror**

Aberduar	10.00 y bore	Delyth Morgans Phillips
Bethel	10.15 y bore	Dylan Lewis
Seion a Brynhafod (yn Seion)	2.00 y pñawn	Delyth Morgans Phillips

## **ASTUDIAETH FEIBLAIDD Y CYLCH**

**7.15 NOS LUN 9 IONAWR**

**7. 15 NOS LUN 23 IONAWR**

**7.15 NOS LUN 6 CHWĒFROR**

**7.15 NOS LUN 20 CHWĒFROR**

**Y GILFACH, HEOL Y GOGLEDD, LLAMBED**

**MAES Y TYMOR:**

**SAITH EGLWYS LLYFR Y DATGUDDIAD**

**DEWCH I YMUNO Â NI I ASTUDIO'R GAIR**

## Oedfa Nadolig Aberduar

Cynhaliwyd oedfa eleni eto yng nghapel Aberduar ar gyfer y Nadolig ar fore Sul y 18ed o Ragfyr. Yn cymryd rhan oedd nifer o blant, bobl ifanc a hŷn yr eglwys. Cyflwynwyd groeso cynnes i'r oedfa gan Meryl Davies. Cyflwynwyd yr emynau gan Hannilia Court, Euronwy Doughty, Alan Jacob ynghyd â Lynwen Pierce a wnaeth hefyd gyflwyno weddi yn diolch am gael dathlu'r Nadolig gyda'n gilydd Mewn gweddi gan Arwel Jenkins bu yn sôn am yr Iesu fel y rhodd fwyaf i ddynolryw erioed. Bu Lowri Gregson yn sôn am wlad Palesteina a'r disgwyl mawr am y Meseia. Cafwyd can gan Ilan Gregson ac adroddiad gan Ioan Davies yn sôn am y Nadolig. Bu Lowri yn dweud am y Nadolig cyntaf a geni'r Iesu yn Bethlehem. Cafwyd darlleniad gan Llŷr Davies am ymweliad y bugeiliaid â'r baban Iesu. Arwel fu yn sôn am ymweliad y doethion â'r baban. Bu Anne Milcoy yn adrodd penillion yn disgrifio ymholiad y doethion. Cafwyd ddarlleniad gan Rhiannon Lewis, hithau'n sôn am Waredwr y byd. Rhiannon hefyd a fu'n cyfeilio. Yn dilyn cafwyd anerchiad byr gan ein gweinidog, y Parchg Densil Morgan, a ddiolchodd i bawb cyn cyflwyno'r fendith ar y diwedd. Trefnwyd yr oedfa gan Dewi Davies Glynteg. Cafwyd paned, mins peis a sgwrs lawen yn y festri ar ôl yr oedfa.

Dewi Davies, Glynteg

## Ysgol Sul Noddfa

Bu'n amhosib trefnu Ysgol Sul yn ystod y misoedd diwethaf ar noson sy'n gyfleus i bawb, gan fod y plant ynghlwm â nifer o weithgareddau amrywiol yn ystod yr wythnos. Ond trwy ryfedd wyrth, llwyddwyd yn wyneb anhawsterau lu, i gynnal oedfa Nadolig ar Nos Sul 18 Rhagfyr. Trwy gyfrwng darlleniadau o'r Beibl, gweddiâu, adroddiadau, unawdau a grwpiau canu bu'r plant, y bobl ifanc a'r rhieni yn ein tywys tua Bethlehem gan gyflawni eu gwaith yn raenus iawn. Roedd deialog rhwng mam a'i phlentyn ar noswyl y Nadolig yn ddolen gyswllt effeithiol iawn trwy'r oedfa wrth i ni ymlwybro tua'r preseb ac yn cynnwys ychydig o awgrymiadau oedd yn codi gwên!! Pleser oedd gweld y plant lleiaf yn seren-nu yn ôl yr arfer wrth ganu a llefaru mewn ffordd mor naturiol a chartrefol. Ar ddiwedd yr oedfa cafwyd ymweliad gan Siôn Corn (diolch i Alun) a bu'n hael iawn eleni eto tuag at y plant a'r bobl ifainc. Yna mwynhawyd te parti ardderchog yn y festri wedi ei drefnu gan Llinos a'r rhieni i gloi ychydig oriau pleserus dros ben. Dymuna Janet ddiolch o galon i bawb am eu cyfraniadau gwerthfawr gan sicrhau oedfa fendithiol er gwaethaf ambell i broblem ar hyd y ffordd!

Janet Evans

## Bryn Hafod a Bethel Silian

Oherwydd prinder lle y tro hwn, bydd adroddiadau llawn am oedfaon Nadolig capeli Brynhafod a Bethel yn ymddangos yn rhifyn nesaf y *Deufis*. Ond cafwyd dau wasanaeth ardderchog, felly yn y cyfamser am fanylion amdanynt, gan gynnwys lluniau, trowch at Wefan y Cylch.



## CADWYN TEIFI

*Hybu'r ffydd Gristnogol ymhlith pobl ifainc*

Cynhelir cyfarfod yng Nghanolfan Creuddyn, Heol Pontfaen, Llanbedr Pont Steffan SA48 7BN, am 6 o'r gloch  
Nos Iau 12 Ionawr 2023 i ddiweddarau cefnogwyr ynghylch y fenter i benodi gweithiwr/gweithwraig yn ysgolion dalgylch Ysgol Henry Richard, Tregaron, ac Ysgol Bro Pedr, Llanbedr Pont Steffan

**Siaradwr: Jack Newbould, ysgogwr cenhadol Undeb y Gair**

Croeso cynnes i bawb  
Bydd lluniaeth ysgafn yn dilyn

**Am fwy o wybodaeth am ein gweithgareddau, cofiwch droi at:**



**Wefan y Cylch,  
Twitter  
a Facebook**



**[www.bedyddwyroggleddteifi.org](http://www.bedyddwyroggleddteifi.org)**